# Cydnabyddiad Cyflwyno

Ffurflen **C7**

Y Llys

**Rhif yr Achos**

Enw(au) llawn y plentyn/plant

Dyddiad y [Gwrandawiad] [Apwyntiad Cyfarwyddo]

**Bydd CAFCASS /CAFCASS CYMRU yn gwneud y gwiriadau diogelwch y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol.**

CAFCASS – Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (yn Lloegr); CAFCASS CYMRU – Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru.

**Beth ddylech chi (yr un sy'n cael y ffurflen hon) ei wneud**

- Atebwch y cwestiynau canlynol: **Os ydych am gadw manylion eich cyfeiriad yn gyfrinachol, dylech lenwi ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol C8.** Mae ffurflen C8 ar gael drwy glicio ar y ddolen hon: https://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd
- Os bydd angen rhagor o le arnoch, cewch barhau ar ddalen arall o bapur. Rhowch eich enw llawn, rhif yr achos ac enw(au) y plentyn/plant ar frig y ddalen.
- Os yw'r ceisydd wedi gofyn i'r llys am orchymyn i chi wneud taliad ar gyfer plentyn mae'n rhaid i chi hefyd lenwi Datganiad Modd. Gallwch gael y ffurflen hon o swyddfa'r llys os nad oes copi wedi'i hamgáu gyda'r papurau a gyflwynwyd ichi.
- **Os ydych yn ateb 'Do/Oes' i'r ddwy ran o gwestiwn 6, a/neu 'Ydw' i gwestiwn 7, rhaid i chi hefyd lenwi Ffurflen Wybodaeth Atodol (ffurflen C1A).** Gallwch gael y ffurflen hon o swyddfa'r llys os nad oes copi wedi'i hamgáu gyda'r papurau a gyflwynwyd ichi.
- Os bydd angen cyfleusterau neu gymorth arbennig arnoch oherwydd anabledd neu nam, nodwch eich gofynion yn llawn yng nghwestiwn 10. Bydd staff y llys angen gwybod beth yw eich anghenion penodol, er enghraifft; dogfennau mewn fformat arall megis Braille neu brint bras a/neu ddarpariaeth ar gyfer mynediad, dolen sain neu gyfieithydd iaith arwyddion. Bydd staff y llys yn cysylltu â chi ynghylch hyn. Os na fyddwch yn hysbysu'r llys o'ch holl anghenion, gallai hyn arwain at ohirio'r gwrandawiad.
- Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, dylech wneud copïau o ddwy ochr y ffurflen hon. Bydd angen copi arnoch ar gyfer y ceisydd, a phob parti a enwir yn y cais am orchymyn (ffurflen C1, C100, C78 neu C79).
- Postiwch, neu rhowch, gopi i'r ceisydd ac i bob parti. **Postiwch, neu rhowch, gopi i'r ceisydd ac i bob parti.** Yna postiwch neu ewch â'r ffurflen hon a'r Datganiad Modd a'r Ffurflen Wybodaeth Atodol os ydych wedi eu llenwi, i'r llys yn y cyfeiriad isod. Rhaid i chi wneud hyn **o fewn 14 diwrnod** i'r dyddiad y cawsoch y Rhybudd o Achos, **neu'r** dyddiad ar yr amlen os cafodd y Rhybudd o Achos ei bostio atoch.

I'w lenwi gan y llys

Rheolwr y Llys

Mae swyddfa'r llys ar agor o a.m. tan p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.



© Hawlfraint y Goron 2022

**1. Gwybodaeth amdanoch chi** (yr un sy'n llenwi'r ffurflen)

Enw llawn

Dyddiad geni

Cyfeiriad

Os ydych am gadw manylion eich cyfeiriad yn gyfrinachol, dylech adael y rhan hon yn wag a llenwi ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol C8.

Cod post

Rhif ffôn

Os oes modd, rhowch rif ffôn i gysylltu â chi yn ystod y dydd.

**2. Gwybodaeth am eich cyfreithiwr**

Enw llawn

Os nad oes gennych gyfreithiwr nodwch **Dim cyfreithiwr** (ond gweler nodyn 3 yn y Rhybudd o Achos a gyflwynwyd ichi).

Cyfeiriad

Cod post

Cyfeirnod

Rhif ffôn

Rhif ffacs

Rhif DX

**3. Y cyfeiriad y dylid anfon llythyrau a phapurau eraill iddo**

Os ydych am gadw manylion eich cyfeiriad yn gyfrinachol, dylech adael y rhan hon yn wag a llenwi ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol C8.

Cyfeiriad

Cod post

**4. Cyrhaeddodd y cais ar**

**5. A ydych chi'n gwrthwynebu'r cais?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**6. A gawsoch chi Ffurflen Wybodaeth Atodol (ffurflen C1A) wedi ei llenwi gan y ceisydd gyda'r papurau a gyflwynwyd ichi?**

☐ Do - a oes gennych sylwadau ar y datganiadau a wnaed gan y ceisydd ar y ffurflen honno?

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Naddo

**7. Ydych chi'n credu bod y plentyn/plant a enwir uchod wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef unrhyw niwed drwy unrhyw un o'r canlynol:**

- unrhyw fath o gam-drin domestig
- trais ar yr aelwyd
- herwgydio plant
- unrhyw ymddygiad arall
- gan unrhyw un –

(a) sydd neu sydd wedi bod yn gofalu am y plentyn/plant; neu

(b) sy'n byw, neu sydd mewn cyswllt, gyda'r plentyn/plant?

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**8. A ydych chi'n bwriadu gwneud cais i'r llys am orchymyn?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

**9.** **A fyddwch chi angen cyfieithydd yn y llys?**

☐ Byddaf. Nodwch yr iaith y bydd y cyfieithydd yn cyfieithu iddi:

☐ Na fyddaf

Os bydd angen cyfieithydd arnoch, rhaid i chi ddweud wrth y llys yn ddi-oed, er mwyn gallu trefnu bod un ar gael.

**10.** **A oes gennych chi anabledd sy'n golygu y bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch?**

☐ Oes. Dyma fy anghenion:

☐ Nac oes

Os oes, nodwch beth yw'r anghenion hynny. Bydd staff y llys yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion.

**Deddf Cam-drin Domestig 2021**

Mae i ddarpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yr effaith o atal unigolyn sydd wedi'i gyhuddo o gam-drin rhag holi'r parti neu'r tyst yn yr achos sy'n ddioddefwr y cam-drin wyneb yn wyneb, a hefyd atal dioddefwr cam-drin rhag holi'r unigolyn sydd wedi'i gyhuddo wyneb yn wyneb mewn amgylchiadau penodol.

Os yw'r llys yn gorchymyn bod yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad lle y gellir rhoi tystiolaeth lafar, efallai y bydd angen llenwi ffurflen **EX740** (unigolyn sy'n gwneud y cyhuddiad o gam-drin) neu ffurflen **EX741** (unigolyn a gyhuddwyd o gam-drin) 'Cais a gwybodaeth y mae ar y llys ei hangen i ystyried a ddylid atal (gwahardd) holi (croesholi) wyneb yn wyneb' fel y gall y llys ystyried a ddylid atal holi wyneb yn wyneb. Bydd y llys yn anfon y ffurflen briodol gyda'r gorchymyn llys.

# Datganiad Gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

**Rwy'n credu** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac ar unrhyw ddalennau ychwanegol, yn wir.

**Mae'r atebydd** yn credu fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon, ac unrhyw ddalennau ychwanegol, yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan yr atebydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Atebydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol yr atebydd (fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod Mis Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol yr atebydd

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir